

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebo:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Diben.....	5
2.	Trosolwg .....	5
3.	Negeseuon allweddol.....	5
4.	Canfyddiadau'r arolygiad .....	6
5.	Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig .....	8
6.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith .....	10
7.	Llywodraethu.....	11
8.	Ymgysylltiad.....	12
9.	Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig .....	13

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Diben

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

# 2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC naw arolygiad o leoliadau ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys neu ymweld â hwy, gan gynnwys:

- 1 arolygiad o ysbyty
- 4 arolygiad o bractisau cyffredinol
- 2 arolygiad o bractisau deintyddol
- 1 arolygiad yn ymwneud ag anabledd dysgu
- 1 arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datgelu Meddygol).

# 3. Negeseuon allweddol

Dengys yr arolygiadau a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys fod y gofal a ddarperir i gleifion yn garedig gydag urddas ar y cyfan, ac yn cael ei gyflwyno gan staff ymroddedig a brwdfrydig.

Yn ystod 2016-17 gwnaeth ein gwaith amlygu'r materion canlynol a allai'r bwrdd fod am roi sylw pellach iddynt.

- Bu'n rhaid i AGIC ddilyn ei broses sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad yn ystod ymweliad arolygu ag ysbyty Aberhonddu a Threfyclo ac un arolygiad o bractis deintyddol. Roedd y canfyddiadau sicrwydd ar unwaith a nodwyd yn y ddau arolygiad yn welliannau a nodwyd gan AGIC mewn adroddiadau thematig blynyddol blaenorol
- Mae angen gwella ansawdd a chysondeb dogfennau iechyd meddwl penodol mewn nodiadau cleifion mewnol ysbytai a sicrhau bod canllawiau atal a rheoli heintiau yn cael eu gweithredu'n gyson.
- Er mwyn sicrhau bod canllawiau rheoli ac atal haint yn eu gweithredu'n gyson.

## 4. Canfyddiadau'r arolygiad

Yn ystod 2016-17, cynhaliodd AGIC waith amrywiol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg drwy'r gwaith eleni. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

### Arolygiadau o ysbytai

Yn ystod 2016-17, bu i ni ymweld ag Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu (ward Epynt) ac Ysbyty Cymunedol Trefyclo (Ward Panpwnton). Ystyriwyd y ddau yn ystod un ymweliad arolygu â mwy nag un safle. Cymysg oedd ein canfyddiadau yn yr arolygiad hwn.

Cawsom beth adborth cadarnhaol gan y rhai sy'n derbyn gofal a / neu eu perthnasau ac ymwelwyr. Roedd y ddwy ward yr ymwelwyd â nhw i'w gweld yn lân, yn daclus a heb unrhyw beryglon amlwg. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth eglur gan yr uwch-reolwyr a strwythur uwch-reoli sefydlog. Roedd rheolwyr y ward yn y ddau leoliad yn newydd ond gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael effaith gychwynnol dda a'u bod yn derbyn cymorth da gan y tîm uwch-reoli i ddatblygu eu rolau.

Gwnaethom nifer o argymhellion i wella, gan gynnwys dau welliant a godwyd i gymryd camau gweithredu ar frys i'w datrys. Gweler adran 6 yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn am ragor o fanylion ar y gwelliannau a wnaed gydag amserlen frys. Rydym yn argymhell lefelau staffio gwell a goruchwyllo cleifion yn ystod amser bwyd; diogelwch gwell o ran cofnodion cleifion; yr angen i sicrhau bod dulliau atal a rheoli heintiau yn cael eu defnyddio'n gyson; rhai gwelliannau o ran cadw cofnodion; yn arbennig o ran dogfennau iechyd meddwl, yn ogystal â defnyddio mentrau sy'n gyfeillgar i ddementia a nam gwybyddol yn fwy cadarn.

### Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datgelu Meddygol)

Bu i ni ymweld ag adrannau delweddu diagnostig (radiograffeg) tri o ysbytai cymunedol Powys; sef Ysbyty Coffa Rhyfel Victoria yn y Trallwng, Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ac Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y cleifion am ddull y staff o'u trin yn yr adrannau hyn. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch ac urddas.

Gwelsom ddiffyg eglurder mewn rhai o'r gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n rheoli'r defnydd a wneir o offer radiograffeg yn yr adrannau a allai fod wedi creu peth dryswch. Gwelsom hefyd nad oedd y gweithdrefnau ysgrifenedig ym mhob

achos yn nodi'r ymarferydd perfformio a'r swyddogion gweithredu yn gywir – proses a elwir yn 'hawl' o fewn y rheoliadau ymbelydredd ïoneiddio (datgelu meddygol).

### Practis Cyffredinol

Bu i ni ymweld â phedwar practis meddygon teulu ym Mhowys er mwyn cynnal ymweliadau arolygu. Mewn tri ymweliad, gwelsom dystiolaeth bod practisau yn gweithio'n galed i ddarparu gofal o ansawdd uchel a darparu dilyniant i gleifion er gwaetha'r heriau cyffredinol ar draws y sector wrth recriwtio nifer ddigonol o feddygon teulu. Roedd timau ymarferon yn ymroddedig ac yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ymfalchïo wrth gyfrannu i ddarpariaeth gofal sylfaenol effeithiol o fewn eu cymunedau.

Gwnaethom argymhellion i wella ym mhob un o'r pedwar practis gan gynnwys:

- Yr angen i wella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ac arwyddion drwy gyfrwng y Gymraeg
- Sicrhau bod adborth cleifion ar gael a bod dull o gyfathrebu â nhw gan gymryd camau gweithredu o ganlyniad i'r adborth
- Sicrhau bod agweddau ar reoli perfformiad y staff, gan gynnwys gwerthusiadau a hyfforddiant, yn cael eu cynnal yn briodol.

### Deintyddol

Bu i ni ymweld â dau bractis deintyddol sydd â darpariaeth gymysg yn ystod 2016-17.

Clywsom gan gleifion yn gyson eu bod yn fodlon â'r gofal deintyddol maent yn ei dderbyn. Gwelsom fod y timau deintyddol yn ymrwymedig iawn i'w cleifion a darparu gofal deintyddol o ansawdd da. Gwelsom hefyd nad ymddangosodd ddau arferion yn lân ac yn daclus ac mewn sefyllfa dda, darparu profiad cadarnhaol â phosibl gleifion.

Gwelsom fod angen gwella'r themâu canlynol yn y ddau bractis:

- Roedd angen gwella agweddau ar y broses ddadheintio
- Roedd angen gwella er mwyn codi safon cofnodion cleifion
- Roedd angen gwella rhywfaint ar y trefniadau er mwyn sicrhau bod y systemau a'r prosesu radiograffeg yn ddiogel.

Rydym hefyd wedi anfon llythyr un sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i'r canfyddiadau ar un o'r ddau bractis deintyddol; gweler adran 6 am fanylion pellach.

### **Anableddau dysgu**

Bu i ni ymweld â Thîm Anableddau Dysgu Cymuned De Powys yn ystod ein gwaith thematig ar anabledd dysgu a gynhaliwyd yn 2016-17. Bu i ni hefyd ystyried rhai elfennau o dîm Cymuned Gogledd Powys a oedd yn ymwneud yn gyffredinol â'r strwythur a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn ardal Gogledd Powys.

Gwelsom fod y staff sy'n gweithio yn y maes hwn yn angerddol ac yn ymroddedig i'w gwaith. Roeddem yn hyderus bod y tîm yn adnabod anghenion y rhai yr oeddynt yn eu cynorthwyo yn dda iawn.

Gwelsom nad oedd digon o adnoddau ar gyfer rhai elfennau o'r gwasanaeth – yn arbennig y ddarpariaeth therapi iaith a lleferydd a chymorth i ymddygiad cymhleth i'r tîm craidd o staff. Gwelsom fod angen i'r bwrdd iechyd gryfhau ei ddull o gynllunio o fewn y gwasanaeth yn y dyfodol a sicrhau ei fod yn fwy ymatebol i ddemograffig newidiol y boblogaeth ag anableddau dysgu ym Mhowys. Roedd angen sicrhau hefyd bod mwy o ymgysylltu â grŵp defnyddwyr y gwasanaeth hwn yn y broses o gynllunio gwasanaethau presennol ac yn y dyfodol.

Ni chafodd tîm iechyd De Powys ei gyd-leoli â chydweithwyr yr awdurdod lleol ac felly amharwyd ar eu gallu i gydweithio'n effeithiol a gweithio mewn partneriaeth.

## **5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig**

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau nac ymchwiliadau arbennig ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod 2016-17.



## Adroddiad Thematig Gwasanaethau Anabledd Dysgu 2015-16

Yn ystod 2016-17 cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig<sup>1</sup> o wasanaethau iechyd y GIG i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd canfod cryfderau cyffredin a meysydd i'w gwella, ac mae'n gwneud argymhellion i fyrddau iechyd. Mae hefyd yn amlygu arfer da, i gefnogi'r broses o wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru isod:

- Roedd ein canfyddiadau am y gwasanaethau a ddarperir gan dimau iechyd anabledd dysgu cymunedol yn gadarnhaol gan fwyaf
- Gwelsom fod angen gwella gwasanaethau preswyl y GIG i bobl ag anableddau dysgu yn sylweddol mewn llawer o feysydd
- Gwelsom fod y bobl yn derbyn gofal unigol da fel arfer gan staff a oedd yn gwneud eu gorau i ofalu am gleifion
- Nid oedd gofal cleifion yn cael ei ategu gan drefniadau rheoli a staffio da yn aml.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ystyried diben eu lleoliadau preswyl anabledd dysgu'r GIG a ph'un a yw'r gofal a ddarperir yn y sefydliadau hyn dim ond yn ymwneud â gofal iechyd. Os nad ydynt, dylai byrddau iechyd ystyried p'un a yw model gofal cymdeithasol yn fwy priodol.

## Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg 2015-16

Cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig<sup>2</sup> o Wasanaethau Offthalmoleg yn ystod 2016-17. Nod yr adolygiad oedd edrych ar ffiniau gofal sylfaenol ac eilaidd i archwilio sut yr oedd darparwyr yn cyflwyno ac yn datblygu gwasanaethau. Canolbwynt yr adolygiad oedd Dirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, o ganlyniad i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw oedi mewn triniaeth i gleifion. Prif ganfyddiadau ein hadolygiad oedd:

- Nid oes gan y gwasanaethau gofal llygaid ar draws Cymru ddigon o gapasiti mewn gofal eilaidd i ateb y galw presennol

---

<sup>1</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/161208ldreviewcy.pdf>

<sup>2</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/170131opreviewcy.pdf>

- Gall absenoldeb gweithwyr allweddol olygu nad yw rhannau o'r llwybr gofal yn gweithio'n effeithiol, gan gynyddu'r risg o niwed potensial y gellid ei osgoi i gleifion
- Mae angen gwell gwybodaeth ar fyrddau iechyd ynglŷn â'r bwch rhwng galw a chapasiti er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â chynllunio'r gweithlu
- Clywsom fod perthynas waith wael rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd mewn rhai o ardaloedd y bwrdd iechyd wedi rhwystro ymdrechion i wella'r gweithio ar y cyd
- Gwelsom rai mentrau newydd ledled Cymru sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau Dirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, gan gynnwys cyflwyno chwistrellwyr anfeddygol. Fodd bynnag, ni fu'r cynnydd yn y broses o ddatblygu a chyflwyno'r mentrau hyn yn gyson ar draws y byrddau iechyd.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddeall bod angen datblygu'r gwasanaethau ymhellach er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn llawn er mwyn cryfhau seilwaith a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal llygaid.

## 6. Camau Dilydol a Sicrwydd ar Unwaith

### Camau dilydol

Bu i ni gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau yn dilyn pob un o'n harolygiadau. Lle'r oeddem wedi nodi bod angen gwelliant, roedd hefyd yn ofynnol gennym fod y bwrdd iechyd neu'r practis yn darparu cynllun gwella ar ein cyfer gan nodi sut roeddent yn mynd i gyflawni'r gwelliannau. Ar gyfer rhai arolygiadau, byddwn yn cynnal arolygiad dilydol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gwella wedi derbyn sylw.

Ni wnaethom gynnal unrhyw arolygiad dilydol penodol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod 2016-17. Fodd bynnag, gwnaethom ymweld â ward Epynt yn ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu o'r blaen ac yn ystod ein harolygiad yn 2016-17 o'r ward hon gwnaethom gymryd y cyfle i ystyried p'un a yw'r bwrdd iechyd wedi gwneud y gwelliannau yn dilyn ein hargymhellion a wnaed eisoes. Gwelsom fod rhai o'r themâu a ganfuwyd yn yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn ganfyddiadau negyddol yn ystod 2016-17 (mae angen gwella dogfennau iechyd meddwl mewn nodiadau cleifion a sicrhau bod rhagofalon atal a rheoli heintiau yn cael eu defnyddio'n gyson). Fodd bynnag, roeddem yn yr un modd yn gallu cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud mewn meysydd eraill megis strwythur sefydlog yr uwch-reolwyr a'r cymorth a ddarperir i reolwyr y ward.

## Sicrwydd ar unwaith

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a phractisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2016-17 bu i ni gyhoeddi dau lythyr sicrwydd ar unwaith i wasanaethau'r GIG o fewn y bwrdd iechyd.

Yn ystod ein hymweliad arolygu â mwy nag un ysbyty gwelsom nad oedd pob claf yn gwisgo band adnabod ar eu garddwrn. Gall hyn achosi mwy o risg o wneud y driniaeth a'r gweithdrefnau anghywir ac mae angen gallu adnabod y cleifion mewn ffordd gadarnhaol. Gofynnwyd hefyd y mae'r bwrdd iechyd yn darparu sicrwydd y byddai digon o gymorth gan reolwyr i ward ysbyty a oedd wedi'u hynysu oherwydd lleoliad, ar adeg pan oedd rheolwr y ward i ffwrdd. Bu i ni godi'r mater hwn ar frys a gofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith i unioni hyn a sicrhau nad oedd y mater yn un eang. Cawsom ymateb amserol a boddhaol gan y bwrdd iechyd i'r ddau fater.

Mewn un o'r arolygiadau deintyddol a gynhaliwyd, gwelsom fod y feddyginiaeth a'r offer yn y pecyn brys yn hen (ar gyfer cleifion sy'n llewygu). Gall hyn fod yn beryglus iawn i gleifion gan ei fod yn golygu nad ydynt o bosibl yn gallu derbyn y driniaeth gywir pe byddai rhywun yn llewygu ac felly rydym wedi gofyn i'r practis gymryd camau gweithredu ar unwaith i unioni'r canfyddiad hwn.

## 7. Llywodraethu

Yn ystod 2016-17 roedd nifer o gyfleoedd i'r bwrdd iechyd arddangos ei fod yn sefydliad sy'n dysgu. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn gadarn ar y cyfan wrth i faterion godi ac roedd cynlluniau gwella yn cael eu cwblhau a'u darparu mewn da bryd.

Sicrhaodd y bwrdd iechyd y caiff adroddiadau arolygu ysbytai AGIC eu trafod yn ei gyfarfodydd Profiad, Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn 2016-17. Mae'r pwyllgor hwn hefyd yn ymddangos yn gadarn yn canolbwyntio ar archwilio a mynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr i ddiogelwch cleifion heb eu cynnwys yn y gwaith arolygu AGIC.

Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos y caiff gweithgareddau arolygu gofal sylfaenol eu trafod gan y pwyllgor hwn yn yr un modd. Er hynny, o'r ddau fater sicrwydd ar unwaith a nododd AGIC ym Mhowys, roedd un ohonynt yn ymwneud â materion a ganfuwyd mewn practis deintyddol, ac efallai y dylai'r bwrdd iechyd ystyried p'un a yw'r trefniadau llywodraethu presennol yn ymwneud ag arferion deintyddol yn ddigonol. Mae'n ymddangos bod y pwyllgor

hwn hefyd yn canolbwyntio'n gadarn ar archwilio a rhoi sylw i rai o'r prif heriau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion na chânt eu cwmpasu gan waith arolygu AGIC.

## 8. Ymgysylltiad

Yn ystod 2016-17, cyflwynodd Rheolwr Cysylltiadau AGIC adroddiad Bwrdd Iechyd AGIC 2016-17 mewn cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus.

Yn ogystal â hyn, bu i Brif Weithredwr AGIC a'r Rheolwr Cysylltiadau gyfarfod â'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y bwrdd iechyd ym mis Gorffennaf 2016.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn groesawgar ac ymatebodd i bob gais gan AGIC am ragor o wybodaeth yn ystod y flwyddyn. Ysgrifennodd Rheolwr Perthynas AGIC i Fwrdd Iechyd ar dri achlysur gwahanol yn ystod 2016-17, gan ofyn am ragor o wybodaeth a sicrwydd ar y materion sydd wedi dod i'n sylw. Ar y tri achlysur roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn ymateb ar ran y bwrdd iechyd gyda'r ymatebion amserol a llawn.

Cyfarfu AGIC gydag aelodau o'r tîm Ansawdd a Diogelwch y bwrdd iechyd ar un achlysur i drafod materion diogelwch a sicrwydd yn ymwneud â gwasanaethau deintyddol, yn ogystal â hyn roedd cyfathrebu agored ac adeiladol arall gyda'r tîm lle bo angen ac yn briodol.

Yn ystod 2016-17, cymerodd y bwrdd iechyd y cyfle i estyn gwahoddiad agored eto i AGIC fynychu unrhyw un o'r cyfarfodydd Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch y Cleifion. Ystyriwyd y cofnodion a'r agenda sydd i'w cael ar-lein pan nad oedd modd i AGIC fynychu'r rhain.

## 9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

### Arolygiadau o Ysbytai

1. <a href="#">Ysbytai Coffa Rhyfel Aberhonddu a Threfyclo</a>	10 Awst 2016
--	--------------

### Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

2. <a href="#">Meddygfa Wylcwm St, Wylcwm St, Trefyclo. LD7 1AD</a>	10 Ionawr 2017
3. <a href="#">Practis Meddygol Llandrindod, Spa Road East, Llandrindod. LD1 5ES</a>	24 Ionawr 2017
4. <a href="#">Practis Meddygol Llanfair-ym-muallt, Parc Glandŵr, Llanfair-ym-muallt. LD2 3DZ</a>	6 Chwefror 2017
5. <a href="#">Canolfan Feddygol Rhaeadr Gwy, Cae Herbert Lane, Rhaeadr Gwy. LD6 5ED</a>	21 Chwefror 2017

### Arolygiadau Deintyddol

6. <a href="#">E G Davies, Practis Deintyddol Llys Einion, 60 Heol Maengwyn, Powys, Machynlleth. SY20 8DY</a>	12 Gorffennaf 2016
7. <a href="#">Gofal Deintyddol River Wye, Oxford Road, Y Gelli Gandryll, Henffordd. HR3 5AL</a>	27 Medi 2016

### Arolygiadau o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

8. <a href="#">Adrannau Delweddu Diagnostig</a>	13 Medi 2016
---	--------------

### Arolygiadau Anabledd Dysgu

9. <a href="#">Tîm Cymunedol Anabledd Dysgu Powys</a>	15 Mehefin 2016
---	-----------------